## P-04-568 Ymchwiliad Cyhoeddus i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

**Geiriad y ddeiseb**:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gynnal ymchwiliad cyhoeddus llawn er mwyn ymchwilio i'r pryderon difrifol a godwyd ynghylch safonau gofal ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a'r modd y mae'r bwrdd yn ymdrin â chwynion—materion sydd wedi achosi cymaint o niwed a dioddefaint y gellid eu hosgoi i gleifion mewn ysbytai sy'n cael eu gweinyddu gan y Bwrdd a'i gyrff rhagflaenol, ac i berthnasau sy'n galaru—ac, lle bo hynny'n briodol, i ddwyn y prif weithredwr a'r tîm rheoli i gyfrif.

**Prif ddeisebydd** ABMU VICTIMS' SUPPORT GROUP

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor**: 01 Mehefin 2014

**Nifer y llofnodion**: 87